

Rhifyn Newydd 38 'Dŵr a'r dyfodol'

Gawsoch chi haf braf?

Fuoch chi ffwrdd am wyliau rhywle poeth, ar lan môr neu wnaethoch chi fentro am yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala a chael cyfuniad o haul a glaw ar lan Llyn Tegid?

Fues i yn teithio o amgylch Prydain gryn dipyn a cefais y fraint o gysgu ar lan dau lyn mawr. Llyn Tegid ger y Bala oedd y cyntaf tra roedd yr Eisteddfod yno. Penderfynnodd yr haul ddod allan am ddyddiau yn ystod yr Eisteddfod ond erbyn cyrraedd Llyn Windermere yn Ardal y Llynnoedd wnaeth hi ddim byd ond bwrw glaw.

Mae gan y ddau lyn yma sawl peth yn gyffredin

- Maent wedi eu lleoli mewn parciau cenedlaethol - PC Ardal y Llynnoedd, y cyntaf yn Lloegr a PC Eryri - y cyntaf yng Nghymru
- Mae'r ddau wedi eu creu gan rewlifant
- Mae'r ddau yn fawr - y llynnoedd naturiol mwyaf yn eu gwlad. Llyn Tegid yn 4 milltir o hyd a bron i filltir o led, a llyn Windermere yn 10 milltir o hyd a milltir o led - wow.
- Mae gan y ddau geiri Rhufeinig ger eu glan
- Mae'r ddau yn denu miloedd o ymwelwyr bob blwyddyn i fwynhau'r golygfeydd ac i wneud defnydd o'r dŵr.

Ond mae yna wahaniaethau rhyngddynt hefyd, yn bennaf oherwydd un defnydd penodol. Chewch chi ddim mynd a chwch modur ar Lyn Tegid oni bai ei fod yn gwch awdurdodedig benodol, fel cwch y warden a chwch Glanlyn neu'r clwb Hwyllo lleol, tra ar Lyn Windermere gallwch ddefnyddio cwch modur fel tacsï - y ffordd gyflymaf o fynd o un ochr o'r llyn i'r llall, a cewch deithio trwy'r dydd ar gwch modur pleser eich hun arno.

Mae rheolau mewn grym ar Lyn tegid er mwyn gwarchod ei amgylchedd - dŵr y llyn a'i greaduriaid unigryw fel y Dyfrgi swil a'r gwyniad ac er mwyn atal gwrthdaro rhwng defnyddwyr. Gallwch ddarganfod mwy am wrthdaro oherwydd dŵr trwy ddarllen yr erthygl am Ynys Môn ar y chwith. Mae'r RSPB yn dod a chi ychydig yn agosach at natur yn eu herthygl nhw am warchodfeydd a chewch wneud bwydwr adar yn 'Prosiect yr Hydref'

Felly digon o straeon diddorol yn y rhifyn yma o Gwaith Maes. Os hoffech chithau weld erthygl am rhywbeth yr ydych yn ei wneud yn yr ysgol yn y rhifyn nesaf, gadewch i ni wybod.

Hwyl am y tro



